Estyn
Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Mornant
Ysgol Cymraeg Mornant
Picton Road
Picton
Penyffordd
Flintshire
CH8 9JQ

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2014**

**gan**

**Mr Eifion R Morgan**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 12/06/2014**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Mornant yn leoliad cyfrwng Cymraeg sydd wedi`i leoli mewn caban symudol ar faes Ysgol Gymraeg Mornant, Penyffordd. Pentref bychan gwledig yw Penyffordd tua 7 milltir o Dreffynnon, Gogledd Cymru. Mae`r plant sy'n mynychu'r Cylch yn dod o`r pentrefi lleol a chyfagos sef Ffynnongrowy, Gwespyr, Talacre a Mostyn. Mae'r ardal yn cael ei barnu fel un nad yw'n arbennig o ffyniannus nac o dan anfantais a daw'r plant o gefndiroedd cymdeithasol-economaidd amrywiol.

Mae'r lleoliad yn cael ei weinyddu gan bwyllgor rheoli gwirfoddol ac mae'n ddarparwr addysgol ar gyfer Partneriaeth Gofal Plant a Datblygiad Blynyddoedd Cynnar Sir y Fflint. Mae hefyd yn aelod cofrestredig o Fudiad Meithrin.

Daw`r holl blant o gartrefi Saesneg eu hiaith, er mewn rhai achosion efallai bod gan un rhiant rywfaint o gymhwysedd yn yr iaith Gymraeg. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw blant o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, ac nid oes un o'r plant wedi'u nodi fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae'r lleoliad fodd bynnag, wedi darparu ar gyfer plant ag ADY yn y gorffennol. Mae'n darparu Hawliau Blynyddoedd Cynnar ac mae mynediad i gadeiriau olwyn a chyfleusterau i'r anabl .

Mae'r lleoliad yn darparu ar gyfer plant rhwng 2 ½ a 4 oed am bum diwrnod yr wythnos yn ystod tymor yr ysgol rhwng 11:30 y.b. a 3:00 y.p. Mae`r plant sy`n cael eu hariannu yn mynychu o 1y.p. tan 3 y.p. Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ( AGGCC ) i ddarparu ar gyfer uchafswm o 28 o blant ar unrhyw un adeg. Ar hyn o bryd mae 10 ar y gofrestr ac mae 4 yn cael eu hariannu.

Mae'r lleoliad yn cynnwys caban ar faes Ysgol Mornant. At ei gilydd, mae'r cyfleusterau yn dda iawn. Mae`r plant yn cael mynediad uniongyrchol at yr ardal weithgareddau y tu allan sy`n rhoi ardaloedd iddynt ar gyfer chwarae â theganau mawr, ardaloedd ar gyfer plannu a thyfu hadau ac ardaloedd gwlyb. Mae ardal o laswellt ar gyfer chwarae ac ardal darmac lle mae`r plant yn defnyddio teganau mawr. Mae'r ardal gyfan wedi'i ffensio sy`n sicrhau eu diogelwch yn llwyr. Mae`r cyfleusterau'n cael eu rhannu gyda'r ysgol .

Rhaid mynd at y caban drwy fuarth yr ysgol ac mae hyn yn darparu mwy o ddiogelwch. Mae'r drws y tu allan yn cael ei gadw dan glo sy`n sicrhau nad oes unrhyw un yn medru dod i mewn neu adael heb rybudd. Yn union y tu mewn i'r drws ac yn arwain o goridor mae ystafell fach sy`n cael ei defnyddio ar gyfer cofrestru. Mae`r carped a`r dodrefn yn addas. Mae'r coridor yn arwain at ystafell addysgu fawr. Mae cegin i un pen a thoiledau a chyfleusterau ymolchi yn y pen arall. Mae'r brif ystafell wedi ei gwahanu`n briodol gydag ardaloedd gweithgareddau yn unol ag athroniaeth y Cyfnod Sylfaen. Mae'r waliau wedi cael eu haddurno gydag enghreifftiau o waith y plant. Mae`r hysbysiadau sydd yn cael eu harddangos yn y coridor yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol ar gyfer rhieni.

Mae`r lleoliad wedi`i staffio gan ddau aelod o staff sydd â chymwysterau da sydd wedi mynychu cyrsiau priodol.

Cafodd y lleoliad ei arolygu gan AGGCC ym Mawrth 2014 ac mae`r argymhellion wedi cael sylw.

Roedd arolygiad blaenorol Estyn ym mis Hydref 2008 ac mae'r mân argymhellion wedi cael sylw.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

***Prif arfarniad***

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd:

- mae`r profiadau dysgu sydd wedi`u cynllunio yn ennyn diddordeb y plant yn llwyddiannus;
- mae`r cyfleoedd dysgu`n annog y plant i ffurfio perthynas dda a dangos goddefgarwch;
- mae darpariaeth dda ar gyfer datblygu`r iaith Gymraeg a medrau rhifedd y plant;
- mae cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy`n cael eu dewis gan y plentyn a gweithgareddau sy`n cael eu harwain gan oedolion;
- darpariaeth y lleoliad ar gyfer sicrhau iechyd a lles y plant;
- yr awyrgylch cynnes a chartrefol sy`n amlwg yn y lleoliad;
- y synnwyr o ddiben sy`n amlwg yn y lleoliad;
- y cysylltiadau sy`n bodoli â`r ysgol gynradd leol.

Mae perfformiad cyfredol y lleoliad dim ond yn ddigonol oherwydd:

- nid yw`r gweithgareddau dysgu sydd wedi`u cynllunio wedi`u datblygu`n ddigon systematig i sicrhau bod y gweithgareddau`n gweddu`n dda â gallu`r plant a`u profiadau blaenorol;
- nid yw canlyniadau`r asesu`n cael eu defnyddio`n ddigonol wrth gynllunio gweithgareddau i`r dyfodol.

### Rhagolygon gwella

Mae`r rhagolygon gwella`n dda oherwydd:

- mae`r lleoliad yn dangos synnwyr o ddiben sy`n canolbwyntio ar ddarparu`r profiadau gorau posibl ar gyfer y plant;
- mae`r staff yn cyd-weithio`n dda ac yn ymatebol i syniadau newydd;
- mae`r staff yn mynychu rhaglenni hyfforddi ac yn trafod ac arfarnu deilliannau;
- mae`r lleoliad yn cael ei gefnogi`n dda gan athro ymgynghorol yr Awdurdod Lleol a Mudiad Meithrin;
- mae`r lleoliad yn gweithio`n agos â`r ysgol gynradd ac yn defnyddio`i chyfleusterau.

## Argymhellion

Mae angen i'r lleoliad:

A1 fireinio`r cynllunio ar gyfer dysgu er mwyn sicrhau bod medrau llythrennedd a rhifedd y plant yn datblygu`n systematig a chynyddol.

A2 ymestyn y gweithdrefnau asesu i nodi datblygiad medrau`r plant.

A3 darparu gweithgareddau ffocws sy`n gweddu`n dda i allu`r plant ac yn eu herio.

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i`r afael â`r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd y lleoliad.

.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | |
| --- | --- |

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
| --- | --- |

**Profiadau dysgu: Digonal**

Mae'r profiadau dysgu sy`n cael eu cynllunio yn llwyddo i ennyn diddordeb y plant ac yn sicrhau eu cyfranogiad gweithredol. Mae`r cynllunio yn ddigon hyblyg i alluogi'r addysgu i ymateb i ddigwyddiadau lleol, fel cwymp eira. Mae`r profiadau dysgu yn gwneud defnydd da o'r ystod eang o adnoddau sydd ar gael yn y lleoliad gan gynnwys gwneud defnydd da o adnoddau`r ysgol leol.

At ei gilydd, mae`r plant yn cael eu hannog i symud ymlaen tuag at fodloni deilliannau'r Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, nid yw`r cynllunio yn nodi`n glir sut mae gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau`r plant yn cael eu datblygu'n systematig a bod y gweithgareddau yn cyfateb yn dda â gallu`r plant a`u profiadau blaenorol.

Mae'r cyfleoedd dysgu sy`n cael eu darparu ar gyfer y plant yn eu hannog i ffurfio perthynas dda gyda'i gilydd ac i ddangos goddefgarwch. Mae`r plant yn cael cyfleoedd da i arbrofi ac i chwarae yn annibynnol ac mae'r rhan fwyaf yn ddigon hyderus i wneud hynny. Mae arddangosfeydd a chofnodion o waith y plant yn dangos bod y cynllunio yn darparu cyfleoedd da i ddatblygu medrau creadigol plant.

Mae profiadau dysgu'r plant yn rhoi digon o gyfleoedd iddynt ddeall a gofalu am bethau byw. Maen nhw`n tyfu eginblanhigion ac yn gofalu amdanynt ac yn casglu creaduriaid bach o'r coetir cyfagos.

Nodwedd dda o lwyddiant y lleoliad yw`r datblygiad o fedrau cyfathrebu a rhifedd y plant. Mae`r cynllunio yn sicrhau bod datblygiad o fedrau iaith a rhifedd y plant yn cael blaenoriaeth ar draws y cwricwlwm ac mae`r ymarferwyr yn manteisio ar gyfleoedd, fel yn ystod cofrestru, i ddatblygu'r medrau hyn. Mae'r cynllunio yn llai manwl ar sut mae medrau o'r fath yn cael eu datblygu'n gynyddol ac yn systematig.

Mae darpariaeth arbennig o dda i ddatblygu'r iaith Gymraeg. Daw`r plant o gartrefi Saesneg eu hiaith, ond mae'r lleoliad yn llwyddiannus iawn wrth ddatblygu iaith Gymraeg y plant. Mae`r plant yn cael eu trochi yn yr iaith ac mae defnydd o batrymau iaith syml yn fuddiol wrth alluogi'r plant i siarad yr iaith. Mae geiriau ac ymadroddion Cymraeg yn cael eu harddangos yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn deall cwestiynau a gorchmynion sy`n cael eu defnyddio gan y staff, ac yn ymateb ambell waith gan ddefnyddio geiriau ac ymadroddion Cymraeg syml.

Mae hyn yn darparu sail dda i symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu haddysg mewn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg.

**Addysgu: Da**

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth dda o ddatblygiad plant ac anghenion unigol plant. Maen nhw`n deall gofynion y Cyfnod Sylfaen, yn enwedig pwysigrwydd darparu cyfleoedd i blant ddysgu trwy chwarae ac ymglymiad gweithredol. Mae'r staff yn cynllunio cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy`n cael eu dewis gan y plentyn a gweithgareddau sy`n cael eu harwain neu gyfeirio gan oedolion. Mae`r ymarferwyr yn sensitif i ofynion y plant ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o bryd i ymyrryd a phryd i adael i'r plentyn weithio'n annibynnol.

Mae`r ymarferwyr yn trin pob plentyn gyda pharch ac yn sensitif i'w hanghenion unigol. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o'r plant o ran eu datblygiad personol ac academaidd.

Nodwedd nodedig a da yn y lleoliad yw bod y staff yn fodelau iaith da. Mae pob sgwrs yn Gymraeg ac fe ddaw'r plant i sylweddoli mai Cymraeg yw`r cyfrwng cyfathrebu. Mae'r lleoliad yn amgylchedd ysgogol a chyffrous ar gyfer y plant ac maen nhw`n ymateb drwy gymryd rhan weithredol a thrwy fwynhau eu hunain.

Mae diffygion yn y gweithdrefnau asesu yn y lleoliad a'r defnydd a wneir ohonynt yn y cynllunio. Mae`r plant yn cael eu hasesu'n rheolaidd ac mae`r arsylwadau`n cael eu cofnodi mewn llyfrynnau unigol y plant, “Dyma Fi”. Mae`r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda, gan gynnwys eu gallu a'u diddordebau. Mae'r gwaith wedi ei gynllunio yn unol â hynny i fodloni eu diddordebau. Fodd bynnag, mae'r cofnodi o gyflawniadau`r plant yn tueddu i fod yn ddisgrifiadol ac nid yw`n canolbwyntio'n ddigonol ar ddatblygiad eu medrau. (Nid oes nodiadau ar gofnodion darluniadol o waith y plant). Nid yw canlyniadau`r asesu yn cael eu defnyddio'n ddigonol wrth gynllunio gweithgareddau yn y dyfodol er mwyn bodloni anghenion y plant a'u galluogi i symud ymlaen at y camau nesaf yn eu dysgu.

Mae`r rhieni yn ymwybodol o'r gweithgareddau sy`n cael eu gwneud gan y plant ac yn derbyn adroddiadau diwedd blwyddyn ar eu cyflawniad a lles.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae darpariaeth y lleoliad ar gyfer sicrhau iechyd a lles y plant, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn dda.

Mae polisïau a gweithdrefnau priodol yn eu lle, ac yn gyffredinol mae`r trefniadau yn annog plant i fod yn iach ac i ddatblygu yn emosiynol ac yn gorfforol.

Mae'r plant yn mwynhau eu bywyd yn y lleoliad a thrwy ystod eang o weithgareddau y tu mewn a thu allan yn yr amgylchedd gwledig cyfoethog, maen nhw`n datblygu eu synnwyr o chwilfrydedd a rhyfeddod am y byd maen nhw`n byw ynddo.

Mae'r lleoliad yn llwyddo i feithrin gwerthoedd fel gonestrwydd , tegwch a pharch ac mae bywyd o ddydd i ddydd yn y lleoliad yn helpu`r plant i wahaniaethu rhwng yr hyn sy`n gywir ac yn anghywir. Maen nhw`n dysgu i gymryd cyfrifoldeb a deall rheolau

syml o ymddygiad.  Mae'r lleoliad yn cyflwyno plant i syniadau ailgylchu a gweithredu'n gynaliadwy, fel wrth ailgylchu papur, poteli plastig , cynwysyddion a deunydd llysiau gwastraff.

Mae`r plant yn dysgu am ddiwylliant a thraddodiadau Cymru a gwledydd eraill.

Nid oes unrhyw blentyn sy`n bresennol wedi cael ei nodi ag anghenion dysgu ychwanegol.  Mae gan y lleoliad, fodd bynnag, drefniadau yn eu lle os oes eu hangen.

Mae trefniadau diogelu`r lleoliad yn dda.  Mae'r lleoliad o fewn maes yr ysgol ac mae hyn yn rhoi diogelwch ychwanegol gan ei fod yn rhan o drefniadau diogelu`r ysgol.  Mae drws allanol y caban yn cael ei gloi bob amser sy`n sicrhau na all unrhyw un ddod i mewn neu adael heb rybudd.  Mae`r plant bob amser yn cael eu goruchwylio yn yr ardal weithgareddau y tu allan.  Mae gan yr ardal hon ffens fetel ddiogel.  Mae rhieni a gofalwyr yn adnabyddus i'r staff.

At ei gilydd, mae'r trefniadau ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu:  Da**

Mae'r lleoliad yn darparu `r plant ag awyrgylch cynnes a chartrefol lle maen nhw`n cael eu parchu fel unigolion.  Mae pob un yn cymryd rhan lawn yn yr holl weithgareddau ac yn cael eu hannog i ehangu eu profiadau.  Mae`r plant yn hyderus ac yn gwybod bod ganddynt gefnogaeth lawn y staff.  Mae awyrgylch oddefgar yn treiddio drwy'r lleoliad ac nid oes unrhyw fath o ymddygiad gormesol yn amlwg.  Mae cyflawniadau`r plant yn cael eu dathlu ac mae`r staff yn gwneud defnydd da o ganmoliaeth i godi hunan-hyder y plant.

Mae`r lleoliad wedi`i staffio`n hael gydag ymarferwyr sydd â chymwysterau da a sydd â phrofiad hir o weithio gyda phlant ifanc.  Mae gan y lleoliad adnoddau addas gyda darpariaeth y tu allan sy`n dda iawn.  Mae'r lleoliad mewn sefyllfa ddelfrydol ger yr ysgol ac felly yn medru gwneud defnydd o`r cyfleusterau sydd ar gael yno.  Mae'r amgylchedd lleol cyfoethog yn cael ei ddefnyddio'n dda i wella dysgu`r plant.

| **Cwestiwn Allweddol 3:  Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth:  Da**

Mae'r lleoliad yn dangos synnwyr o ddiben sy`n canolbwyntio ar ddarparu'r profiadau dysgu gorau ar gyfer y plant.  Mae`r disgwyliadau o'r plant yn uchel a`r berthynas yn dda iawn.  Mae'r lleoliad yn darparu awyrgylch cynnes a chyfeillgar lle mae anghenion y plant yn hollbwysig.  Mae gwir ymdeimlad o gymuned ac mae`r plant yn ymateb yn dda.  Mae`r staff yn gweithio gyda'i gilydd yn dda iawn ac maen nhw`n awyddus i weithredu syniadau newydd ac i sicrhau gwelliannau lle'n bosibl.

Mae'r pwyllgor rheoli yn cael ei hysbysu`n dda ac yn gefnogol o`r lleoliad. Mae`r staff yn cael eu hannog i fynychu cyrsiau hyfforddi perthnasol ac mae`r canlyniadau yn cael eu trafod a'u gwerthuso. Mae arfarnu yn cymryd lle yn flynyddol ac yn cytuno ar dargedau yn y dyfodol. Mae cysylltiadau da iawn yn bodoli gyda'r rhieni sydd yn werthfawrogol iawn o gyfraniad y lleoliad i ddatblygiad eu plentyn.

Mae'r lleoliad wedi rhoi ystyriaeth dda i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol, gan gynnwys datblygu'r fenter "Ysgol Goedwig".

**Gwella ansawdd: Da**

Mae`r ymarferwyr yn adnabod y lleoliad yn dda ac mae ganddynt brofiad sylweddol o weithio gyda'i gilydd. Mae'r lleoliad wedi ymgymryd ag ymarfer hunanarfarnu yn seiliedig ar feini prawf yr awdurdod lleol ar gyfer lleoliadau nas cynhelir. O ganlyniad, mae hyn wedi nodi sawl cryfder yn y lleoliad ac ychydig o feysydd ar gyfer datblygiad. Mae'r meysydd sydd wedi`u nodi ar gyfer datblygu yn realistig ac yn canolbwyntio ar welliannau cadarnhaol ar gyfer y plant. Mae'r rhain yn cael eu nodi yng nghynllun datblygu'r lleoliad. At ei gilydd, mae'r lleoliad yn dangos ethos hunan-feirniadol ac wedi gweithio'n agos gyda swyddog cefnogi`r awdurdod lleol i sicrhau gwelliannau. Mae`r hunanarfarnu yn ystyried y safbwyntiau sy`n cael eu mynegi gan rieni a phlant. Fodd bynnag, nid yw'r agweddau ar gyfer gwelliant yn cael eu blaenoriaethu ond yn hytrach yn cael eu categoreiddio o dan dri chwestiwn allweddol Estyn.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae trefniadau gweithio mewn partneriaeth yn gwneud cyfraniad cryf i gyflawniad da a lles y plant. Enghraifft dda a nodedig o effaith partneriaeth o'r fath yw`r datblygiad o`r ddarpariaeth y tu allan ar gyfer y plant sy`n darparu`r plant ag amgylchedd dysgu da iawn.

Mae cyfraniad yr ysgol gynradd leol hefyd yn gwneud cyfraniad pwysig at ddarpariaeth addysgol y lleoliad. Mae hyn yn cynnwys y defnydd o rai o gyfleusterau'r ysgol a'r gefnogaeth broffesiynol sy`n cael ei rhoi gan y staff.

Mae`r rhieni yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar gynnydd eu plentyn yn ogystal ag adroddiad manwl ar ddiwedd y flwyddyn ar ddatblygiad personol ac academaidd eu plentyn. Maen nhw`n cael cyfle i ymateb – mae`r ymatebion yn gadarnhaol bob tro.

Mae'r lleoliad wedi elwa'n fawr o'r gefnogaeth sy`n cael ei rhoi gan athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol. Mae hi wedi rhoi ystod o adnoddau i`r lleoliad, wedi helpu trefnu`r adnoddau ac wedi cynnig cyngor a chefnogaeth amhrisiadwy. Mae swyddog cefnogi`r Mudiad Meithrin wedi cefnogi datblygiad yr iaith Gymraeg.

Mae pawb sy'n gysylltiedig â`r lleoliad yn gweithio'n dda gyda'i gilydd, yn rhannu gwybodaeth ac yn canolbwyntio ar ddarparu'r ddarpariaeth addysgol orau posibl.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae`r adnoddau yn cael eu rheoli`n dda a'u defnyddio'n effeithiol i gefnogi`r dysgu. Mae`r gyllideb yn cael ei rheoli'n dda ac mae`r gwariant wedi`i seilio ar y camau ar

gyfer gwella sydd wedi`u cynllunio. Mae hon yn gymuned ddysgu effeithiol yn seiliedig ar y cydweithio rhwng partneriaid. Mae'r staff yn ymgymryd â hyfforddiant perthnasol ac yn gweithredu dulliau newydd o ddysgu, fel y fenter “Ysgol Goedwig". Mae'r staff yn hunan-feirniadol ac yn myfyrio ar eu harfer eu hunain gan ofyn am gyngor.

Mae darpariaeth y lleoliad ar gyfer addysgu tu allan yn arbennig o dda ac yn cael ei defnyddio'n effeithlon. Mae`r plant yn gyfarwydd iawn â bod tu allan – mae hyn yn amlwg wrth eu hagwedd a`u hyder. Maen nhw`n dangos eu hannibyniaeth ac yn gweithio`n hyderus yn unigol ac mewn grwpiau bach. Mae`r agwedd hon yn cael ei defnyddio`n dda i gefnogi datblygiad y plant. Mae'r lleoliad yn defnyddio`i adnoddau yn dda; mae defnydd da iawn yn cael ei wneud o gymorth o'r tu allan ac mae hyn wedi creu amgylchedd dysgu da ar gyfer y plant.

Mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i’r holiadur i rieni**

**Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.**

## Atodiad 2

**Yr  arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Mr Eifion R Morgan | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |